

Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyniadau 2021/22

Awdurdod Derbyn: Cyngor Dinas Casnewydd

Ysgrifennydd i'r Fforwm: Prif Swyddog Derbyn i Ysgolion **Manylion cyswllt:** 01633 235236 / 210533
school.admissions@newport.gov.uk

Cyfeiriad: Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR

Aelodaeth a mynychu'r Fforwm

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm *	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Aelod Etholedig	Cadeirydd	Ers mis Mawrth '19 (Etholwyd yn Gadeirydd fis Tach '21)	ALI
2. Aelod Etholedig	Is-gadeirydd	Ers mis Mawrth '19 (Etholwyd yn Is-gadeirydd fis Tach '21)	ALI
3. Cyfarwyddwr Ysgolion Esgobaeth Gatholig	Aelod Pleidleisio	Ers mis Rhagfyr '08 (Ail-etholwyd fis Tach '16, mis Tach '20)	Catholig
4. Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Adnoddau)	Aelod Pleidleisio	Ers mis Rhagfyr '09 (Ail-etholwyd fis Mawrth '22)	ALI
5. Rheolwr Derbyn i Ysgolion	Aelod Pleidleisio	Ers mis Tachwedd '12 (Ail-etholwyd fis Tach '16, mis Tach '20)	ALI
6. Aelod Etholedig	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mawrth '19	ALI
7. Pennaeth, Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mawrth '16 (Ail-etholwyd fis Mehefin '20)	Y/CG
8. Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanfarthyn	Aelod Pleidleisio	Ers mis Tach '20	Y/CG
9. Pennaeth, Ysgol Gyfun Caerllion	Aelod Pleidleisio	Ers mis Tach '18	Y/CG
10. Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff	Aelod Pleidleisio	Ers mis Tach '10 (Ail-etholwyd fis Rhag '14 a mis Mawrth '19)	Y/GG
11. Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Mihangel	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mawrth '18 (Ail-etholwyd fis Mehefin '22)	Y/GG
12. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mehefin '15 (Ail-etholwyd fis Rhag '19)	RhL
13. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Malpas	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mawrth '20	RhL
14. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gymraeg Bro	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mawrth '20	RhL

Teyrnnon			
15. Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mehefin '19 (Ail-etholwyd fis Mehefin '22)	CYM/L
16. Rheolwr AAA	Aelod Pleidleisio	Ers mis Mawrth '15 (Ail-etholwyd fis Mawrth '19)	CYM/L
17. Cydlynnydd Addysg - Plant sy'n Derbyn Gofal	Aelod nad yw'n pleidleisio	Ers mis Mehefin '15 (Ail-etholwyd fis Rhag '19)	ALI/PDG
18. Swyddog Partneriaeth, Cymorth Addysg Lluoedd Ei Mawrhydi	Aelod nad yw'n pleidleisio	Ers mis Tach '19	ALI/AF
19. Ymgynghorydd Ymddygiad ac Awtistiaeth	Aelod nad yw'n pleidleisio	Ers mis Mawrth '19	ALI/ADV

***Os gwasanaethodd am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys dyddiad ail-ethol hefyd.**

Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd		
Enwebwyd yr Aelodau gan	Aelodaeth Graidd	Acronym
ALI - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	ALI, ALI/AAA/ADY, ALI/PDG
Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	yr Eglwys yng Nghymru
Cynrychiolwyr yr Esgobaeth Gatholig	1 i 3	C
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	Y/CG
Ysgolion - sefydliedig	1 i 3	Y/S
Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyr	1 i 3	Y/GG
Cynrychiolwyr sy'n Rhiant-lywodraethwyr	1 i 3	RhL
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	CYM/L

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb (Nid oes unrhyw beth yn Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn (Cymru) 2003 sy'n atal rhai neu bob aelod rhag cymryd rhan yn rhithiol). Mae rheoliad 9 Rheoliadau 2003 yn nodi y gall aelodau craidd reoleiddio eu gweithdrefn eu hunain yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau hynny)

	Dyddiad	Nifer yr Aelodau o'r Fforwm yn bresennol - yn ôl categori
Cyfarfod cyntaf	15 Mawrth 2022	13 (5*ALI / 1*C / 1*CYM/L / 3*Y/CG / 1*RhL / 1*Y/GG / 1*PDG (cyfetholedig))
Ail gyfarfod	21 Mehefin 2022	9 (2*ALI / 1*C / 3*CYM/L / 1*Y/CG / 1*RhL / 1*PDG (cyfetholedig))
Trydydd cyfarfod		

A yw eich awdurdod wedi sefydlu fforwm ar y cyd ag awdurdod lleol cyfagos?

Os ydyw, nodwch fanylion yr awdurdod dan sylw a pha mor llwyddiannus y bu hyn.

Nac ydy

Cadarnhewch a yw'r awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar drefniadau derbyn o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghoriad ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os na fydd unrhyw awdurdod derbyn wedi bodloni'r terfynau amser, rhowch fanylion yma.

Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Mae pob awdurdod derbyn Casnewydd wedi cwblhau, lle y bo'n briodol, ymgynghoriad a phenderfynu ar drefniadau derbyn yn unol â'r dyddiadau a bennwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion statudol.

Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u gweithredu er mwyn bod o fudd i blant sy'n agored i niwed?

A fuont yn llwyddiannus?

Pa drefniadau eraill rydych chi wedi eu nodi er mwyn cefnogi'r plant hyn?

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwmo i gynnig gwasanaeth er budd gorau pob plentyn, yn enwedig y rhai a nodwyd fel rhai sy'n agored i niwed. Fel mewn blynyddoedd blaenorol gellir gweld y dystiolaeth ganlynol:

- Rhoddir blaenoriaeth o ran derbyn i Blant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal ac mae hyn yn cynnwys derbyn disgyblion sy'n derbyn gofal i'r lleoliad ysgol yr ystyrir fel yr un mwyaf priodol i fodloni eu hanghenion hyd yn oed mewn digwyddiadau lle y cyrhaeddwyd neu y rhagorwyd ar y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd; ac mae'r Cydlynnydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn eistedd ar y Fforwm Derbyn er nad yw'n pleidleisio.
- Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion a'r Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau priodoldeb lleoliadau ar gyfer plant ag ADY. Rhoddir blaenoriaeth i'r plant yr enwir ysgol benodol ar eu cyfer yn eu datganiadau / CDU. Eto mae hyn yn cynnwys derbyn y disgyblion hyn i'r lleoliad ysgol yr ystyrir fwyaf priodol i fodloni eu hanghenion hyd yn oed mewn digwyddiadau pan y cyrhaeddwyd neu y rhagorwyd ar y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer y grŵp oedran. Mae'r Rheolwr ADY yn eistedd ar y Fforwm Derbyn.
- Mae Meini Prawf Gordanysgrifio'r Cyngor yn cyfeirio'n benodol at blant y gwneir cais ar eu cyfer am reswm meddygol ac yn rhoi blaenoriaeth i blant o'r fath o fewn y categori yn y dalgylch ac y tu allan i'r dalgylch.
- Cadwyd cysylltiadau gyda'r sector nas cynhelir a darpariaeth Dechrau'n Deg er mwyn cynorthwyo gyda threfniadau pontio i ddsbarthiadau meithrin a Derbyn, gan leihau nifer y ceisiadau hwyr ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd o gais llwyddiannus.
- Mae perthynas waith agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg sy'n cynorthwyo wrth sicrhau ceisiadau dros ben a hwyr yn y prosesau trosglwyddo fesul cam ac yn ystod y flwyddyn ac wrth dracio'r disgyblion nad ydynt wedi cymryd y lle yn yr ysgol a gynigiwyd iddynt.
- Pennir bod plant teuluoedd Personél Lluoedd Arfog y DU/ Gweision y Goron sy'n bwriadu symud i Gasnewydd yn bodloni'r meini prawf preswyllo ar gyfer yr ysgol ddewis os oes tystiolaeth briodol ar gyfer eu cais, sy'n sicrhau felly bod dim anfantais; mae hyn yn cynnwys derbyn plant Personél Lluoedd y DU i ysgol y dalgylch hyd yn oed pan fo'r ysgol wedi cyrraedd y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer y grŵp blwyddyn neu eisoes wedi derbyn mwy.
- Mae protocol lleol ar waith i gyflymu derbyn plant sy'n byw dros dro yn Noddfa Trais Domestig y Ddinas i'r ysgolion dalgylch cynradd ac uwchradd perthnasol er mwyn sicrhau bod eu haddysg mor ddi-dor â phosibl.
- Mae perthnasoedd gwaith agos gyda Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) yn helpu gyda derbyn plant yn gyflym o deuluoedd SRT neu lle mae'r Saesneg yn iaith Ychwanegol i'w hysgolion agosaf sydd fwyaf priodol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth yn yr iaith gartref i blant a'u teuluoedd sydd newydd gyrraedd y Ddinas er mwyn hwyluso'r broses derbyniadau. Mae Pennaeth Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent yn eistedd ar y Fforwm Derbyniadau.
- Mae aelod o'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn bartner allweddol yn y panel Symudiadau a Reolir gan Ysgolion Uwchradd wythnosol lle trafodir ceisiadau derbyn yn ystod y flwyddyn cymhleth gydag uwch gynrychiolwyr ysgolion uwchradd a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- Mae'r Cyngor yn gweithredu Protocol Mynediad Teg o fewn y Polisi Derbyn i Ysgolion i sicrhau bod mynediad i addysg briodol yn cael ei sicrhau'n gyflym ar gyfer pob plentyn, yn enwedig y disgyblion hynny y mae eu lleoliadau mewn perygl oherwydd y gellir eu hystyried yn agored i niwed, am amrywiaeth o resymau, ac y gallant brofi oedi wrth gael eu derbyn i ysgol neu fethu â chael mynediad i le mewn ysgol o ganlyniad.
- Pan fo'r rheswm dros drosglwyddo rhwng ysgolion Casnewydd yn ystod y flwyddyn yn cael ei nodi fel bwlio, mae'r adran Derbyn i Ysgolion yn cyfeirio'r manylion at y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Ymgynghorydd Ymddygiad ac Awtistiaeth at ddibenion monitro.
- Ym mis Ebrill 2022, sefydlodd y Cyngor ysgolion ardal cynradd ac uwchradd fel opsiwn i ddisgyblion o Wcráin sy'n dod i Gasnewydd er mwyn sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl i'r plant hyn a'u teuluoedd. Nid yw pob teulu o Wcráin yn mynychu'r ysgol ardal, ond hyd yma mae 14 o ddisgyblion cynradd ac 19

Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn yn ystod y flwyddyn y cytunwyd arnynt wedi gweithio?

Faint o blant a dderbyniwyd i bob ysgol dan y gweithdrefnau?

A ydych chi wedi nodi cynnydd yn niferoedd y derbyniadau yn ystod y flwyddyn, os felly pa gamau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater?

Mae poblogaeth Casnewydd yn parhau i gynyddu a chyda hi, nifer y plant oedran ysgol. Bu cynnydd o 3,437 o blant mewn ysgolion yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2022. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn dangos, erbyn 2027 y bydd 13,373 o blant ysgol gynradd a 11,771 o blant ysgol uwchradd yng Nghasnewydd sy'n 220 o blant ychwanegol o'u cymharu â 2022.

Derbyniadau yn ystod y flwyddyn: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd					% yn symud i'r ALI	% y lleoedd ysgol ar gael				
Blwyddyn	Meithrin	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm		Blwyddyn (Mehefin)	Cynradd Saes	Uwchradd Saes	Cynradd Cym	Uwchradd Cym
2017/18	111	1094	310	1515	44	2018	7	11	16	21
2018/19	138	1028	406	1572	40	2019	7	11	13	26
2019/20	91	789	328	1208	41	2020	8	10	13	27
2020/21	138	945	349	1432	44	2021	9	9	14	29
2021/22	206	1129	497	1832	41	2022	9	7	17	34

Derbyniadau yn ystod y flwyddyn					
Blwyddyn	% y dewisiadau cyntaf a fodlonwyd			% yr apeliadau a gadarnhawyd	
	Meithrin	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd
2017/18	90	55	95	11	44
2018/19	91	80	93	3	31
2019/20	78	61	63	7	0
2020/21	79	57	67	12	16
2021/22	77	50	57	9	25

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau y caiff pob cais am drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ei brosesu a'i bennu o fewn yr amserlenni a restrir yn y Cod statudol, ac yn gyffredinol gall gyflawni hyn. Serch hynny, bu achosion lle na fu hyn yn bosibl. Gellir priodoli hyn yn rhannol i geisiadau mewn perthynas â'r disgyblion oedran ysgol uwchradd lle y mae angen ystyried ffactorau megis priodoldeb dewisiadau'r cwricwlwm a hanes ysgol y plentyn. Yn anochel, cyfeirir rhai achosion at y panel Symudiadau a Reolir, a gaiff, er budd y plentyn, ei ddefnyddio hefyd i drafod priodoldeb lleoliad y disgybl a sicrhau bod y cymorth priodol ar waith wrth iddo gael ei dderbyn. Ar achlysuron eraill, oherwydd swm enfawr y ceisiadau a dderbyniwyd, ynghyd â'r ganran isel iawn o leoedd dros ben

**Pa faterion derbyn allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal?
Beth ydyn nhw a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â nhw?**

- Fel y digwyddodd mewn rowndiau derbyn blaenorol, roedd galw sylweddol unwaith eto am leoedd Blwyddyn 7 Medi 2022 Cyfrwng Saesneg yn benodol yn nalgylchoedd Basaleg a John Frost. Mewn ymateb i'r galw eleni, trafododd y Cyngor 83 o leoedd Blwyddyn 7 ychwanegol ar draws tair ysgol uwchradd; 30 ym Masaleg, 25 yn John Frost a 28 yn Llyswry. O ganlyniad, roedd pob cais dalgylch uwchradd yn llwyddiannus yn y rownd ar amser. Ar hyn o bryd dim ond yn Ysgol Uwchradd Llan-wern y mae lleoedd Blwyddyn 7 ar gael. Er bod 25 o ddisgyblion dalgylch cynradd yn aflwyddiannus eleni (23 yn Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilfi), sicrhodd y mwyafrif le mewn ysgol amgen, yn unol â dewis y rhieni.
- Er gwaethaf llawer o gyhoeddusrwydd a siasio, mae nifer y ceisiadau trosglwyddo yn ystod y camau hwyr (gan gynnwys newid dewisiadau ar ôl y dyddiad cau) yn parhau'n broblem, gan achosi oedi wrth brosesu ceisiadau a chynnyddu'r posibilrwydd felly bod disgyblion yn cael gwrthod lleoedd yn eu hysgolion dewis cyntaf neu yn eu dalgylch. Mae hyn yn achosi ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion yn ystod y broses bontio.
- Mae'r pwysau am leoedd y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn parhau'n her mewn nifer o leoliadau daearyddol ac mae gan rai ysgolion / clystyrau ychydig o leoedd ar gael yn unig neu ddim lleoedd o gwbl. I'r ysgolion hynny â lleoedd ar gael gall hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn meintiau cohort yn ystod y flwyddyn academaidd, sydd yn ei dro'n arwain at broblemau staffio a chyllidebol.
- Pan fydd y Tim Derbyn i Ysgolion yn methu darparu ar gyfer dewis y rhieni oherwydd y lleoedd sydd ar gael, gall fod sgil-ffeithiau sylweddol gan gynnwys cynnydd o ran darparu trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol a chostau cysylltiedig, anawsterau i rieni y mae ganddynt, o bosibl, blant o oedrannau tebyg mewn dwy ysgol neu fwy, presenoldeb is a phrydlondeb gwael.
- Oherwydd nifer y ceisiadau trosglwyddo yn y camau hwyr, nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion cynradd, mae nifer yr apeliadau derbyn a wneir hefyd yn parhau'n uchel. Mae hyn yn rhoi pwysau ar staff yn eu gallu i baratoi at yr achosion hyn a'u cefnogi ac yn aml gall paneli apeliadau gynnal achos rhagfarn rhieni ar y sail fod yr ysgol arall a gynigir yn bellter sylweddol i ffwrdd neu na all dderbyn yr holl frodyr a chwiorydd.
- Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i reoliadau dros dro ar wrandawiadau apêl derbyn wedi ei gwneud hi'n anodd i awdurdodau derbyn yng Nghymru benderfynu ar ddull gweithredu cyson a chadw aelodau'r panel; yn bennaf oherwydd na chafwyd canllawiau clir ynghylch cyfreithlondeb gwrandawiadau rhithwir. Ar hyn o bryd, mae CDC yn symud ymlaen gyda dull hybrid.
- Er bod nifer y rhieni sy'n hysbysu'r awdurdod lleol o'u bwriad i addysgu eu plant gartref yng Nghasnewydd wedi parhau i godi yn flaenorol, dim ond 1% o gynnydd a welwyd yng nghasgliad data addysg gartref CLILC. Mae casgliad data addysg gartref 2022 CLILC yn adrodd ar y data a gedwir gan awdurdodau lleol ar blant yr oeddent yn cael eu haddysgu yn y cartref ar gyfrifiad 18 Ionawr 2022. Yng Nghasnewydd, cynyddodd nifer y plant a addysgir gartref o 187 yn 2021 i 189 yn 2022. Dros Gymru, roedd cynnydd o 10%. Ar 31 Hydref 2022, roedd 211 o blant yn cael eu haddysgu gartref.

Caiff y Fforwm Derbyn ddiweddariadau rheolaidd ar bob mater derbyn ac mae'r sefyllfa o ran capasiti'n cael ei monitro'n benodol gan y Grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol. Mae'r Cyngor wedi ceisio datrys y broblem o geisiadau trosglwyddo ar gam hwyr dro ar ôl tro, drwy fwy o gyhoeddusrwydd, hysbysu a gweithio gydag ysgolion; ond mae'r niferoedd yn uchel o hyd.

**A oes gweithgarwch derbyn cydgysylltiedig yn eich awdurdod lleol?
Os felly, pa awdurdodau derbyn yn ardal eich awdurdod lleol sy'n cymryd rhan?
A yw wedi bod yn llwyddiannus / buddiol?**

Nid oes unrhyw weithgarwch cydgysylltiedig ffurfiol yn bodoli rhwng awdurdodau derbyn Casnewydd, ond gwneir trefniadau anffurfiol gan y Cyngor lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau 'blocio lleoedd'. Mae'r trefniadau anffurfiol hyn yn cyflwyno her weinyddol sylweddol ac felly byddai CDC yn croesawu dull cydlynol deddfwriaethol ffurfiol yng Nghasnewydd a gydag awdurdodau cyfagos.

Apeliadau Derbyn i Ysgolion

Enw'r Ysgol	Nifer Derbyn	Nifer y dewisiadau a fynegwyd	Nifer dewisiadau cyntaf y rhieni a fodlonwyd	Nifer y lleoedd a ddyrannwyd	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus
Ysgol Gynradd Alway	54	56	41	41		
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion	45	68	35	36		
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams	75	60	55	55		
Ysgol Gynradd Cleidda	30	96	30	30	5	
Ysgol Gynradd Crindau	45	51	39	41		
Ysgol Gynradd Eveswell	60	122	59	59		
Ysgol Gynradd Gaer	60	109	60	60	4	
Ysgol Gynradd Glan Llyn	60	81	60	60	2	
Ysgol Gynradd Glan Wysg	90	133	90	90	2	
Ysgol Gynradd Glasllwch	30	102	30	30	4	
Ysgol Gynradd High Cross	30	104	30	30		
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	45	147	45	45	7	1
Ysgol Gynradd Langstone	45	72	45	45	1	
Ysgol Gynradd Llanfarthyn	30	20	10	10		
Ysgol Gynradd Llyswry	90	72	47	48		
Ysgol Gynradd Maesglas	38	40	24	27		
Ysgol Gynradd Maendy	70	87	49	49		
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas	54	34	18	19		
Ysgol Gynradd Llys Malpas	30	44	25	26		

Enw'r Ysgol	Nifer Derbyn	Nifer y dewisiadau a fynegwyd	Nifer dewisiadau cyntaf y rhieni a fodlonwyd	Nifer y lleoedd a ddyrannwyd	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus
Ysgol Gynradd Parc Malpas	30	64	30	30		
Ysgol Gynradd Maerun	60	71	60	60	1	
Ysgol Gynradd Millbrook	45	43	32	34		
Ysgol Gynradd Milton	90	62	49	49		
Ysgol Gynradd Mynwy	60	43	35	37		
Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd	30	93	30	30		
Ysgol Gynradd Pentrepoeth	60	92	60	60		
Ysgol Gynradd Pillgwenlli	78	78	68	70		
Ysgol Gynradd Ringland	36	24	10	11		
Ysgol Gynradd Tŷ-du	60	164	60	60	2	
Ysgol Gynradd Somerton	29	20	15	15		
Ysgol Gynradd Sant Andrew	90	100	75	75		
Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant	30	37	30	30		
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Gabriel	27	23	23	23		
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30	30	29	29		
Ysgol Gynradd Sain Silian	90	122	72	72		
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	60	53	50	50		
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Michael	30	46	30	30	7	

Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	30	30	27	27		
Ysgol Gynradd Gwynllyw Sant	45	64	45	45	2	
Ysgol Gynradd Parc Tredegar	60	42	24	28		
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	30	40	20	20		
Ysgol Gymraeg Casnewydd	52	75	52	52	3	
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	30	39	27	29		
Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli	30	11	7	9		
Enw'r Ysgol	Nifer Derbyn	Nifer y dewisiadau a fynegwyd	Nifer dewisiadau cyntaf y rhieni a fodlonwyd	Nifer y lleoedd a ddyrannwyd	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus
Basaleg	300	472	300	300	19	1
Ysgol Gyfun Caerllion	248	399	248	248	5	2
Ysgol Uwchradd Llan-wern	260	173	140	145		
Ysgol Uwchradd Llyswry	240	225	195	201		
Ysgol Uwchradd Casnewydd	203	227	191	198		
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff	240	312	240	240	15	0
Ysgol Sant Julian	242	242	231	232		
The John Frost	248	329	248	248	10	2
Ysgol Gyfun Gwent Is-Coed	150	96	90	90		

Pa ddulliau mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i gyhoeddi unrhyw gyngor neu benderfyniadau?

Caiff cofnodion pob cyfarfod y Fforwm Derbyn, pan gânt eu cytuno, eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac felly hefyd adroddiadau blynyddol y Fforwm Derbyn.

Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod Derbyn: Yn dilyn cadarnhau'r cofnodion ym mhob cyfarfod

Hefyd, rhowch y ddolen berthnasol: www.newport.gov.uk/schooladmissions

Cwblhawyd gan: Rheolwr Derbyn i Ysgolion
Dyddiad:07/11/22

Dychwelwch yr adroddiad cyflawn erbyn 30 Tachwedd 2022